15 Mai, 2018

Parthed: Ymgynghoriad gyda Rhieni/Gwarchodwyr, newidiadau arfaethedig i'r Wisg Ysgol (Blynyddoedd 7 – 13, yn unig)

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Ysgrifennaf atoch er mwyn eich hysbysu bod y Cyngor Ysgol a Llywodraethwyr Ysgol Bro Pedr am newid rywfaint ar y wisg Ysgol ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 7 – 13, yn unig. Dyma'r newidiadau arfaethedig, a allai fod yn weithredol o Fedi 2019 ymlaen:

Blwyddyn 7-11: crys piws golau, tei clip-on gyda streip llwyd/porffor

Blwyddyn 12-13: crys gwyn a thei porffor tywyll (gyda logo'r Ysgol)

Byddai'r newid yma yn golygu mai ond yn nhymor yr Haf y byddai hawl gyda'r disgyblion i wisgo'r crys polo porffor (neu grys polo gwyn, yn achos y chweched dosbarth). Ni fyddai yna unrhyw newidiadau eraill i'r wisg Ysgol. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai modd derbyn unrhyw adborth yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda chi, y rhieni/gwarchodwyr. Byddai angen derbyn unrhyw ymatebion/adborth erbyn 29 Mehefin, 2018. Os rydych am ymateb yna croeso ichi i lythyru neu e-bostio'r ysgol: gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk, gan gyfeirio eich adborth at sylw Llywodraethwyr Ysgol Bro Pedr. Diolch yn fawr ichi am eich ystyriaeth o'r mater yma.

Yr eiddoch yn gywir,

Jane Wyn.
(Pennaeth)

15 May, 2018

Regarding: Consultation with Parents/ Guardians, proposed changed to the School Uniform (Years 7 – 13, only)

Dear Parent / Guardian,

I am writing to inform you that the School Council and Governors of Ysgol Bro Pedr wish to make some changes to the School Uniform for pupils in Years 7 - 13 only. Here are the proposed changes, which could be implemented from September 2019 onwards:

Years 7-11: light purple shirt, clip-on tie with grey/purple stripe

Years 12-13: white shirt and deep purple tie (with school logo)

This change would mean that pupils would only be permitted to wear the purple polo shirt (or white polo shirt, in the case of sixth form students) during the Summer term. There wouldn't be any other changes to the School Uniform. I would be grateful if it would be possible to receive any feedback during the consultation process from you, the parents / guardians. Any responses/feedback would need to be received by 29 June, 2018. If you wish to respond, then you are welcome to write letters or e-mail the school gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk, and that you direct your feedback for the attention of Ysgol Bro Pedr's School Governors. Thank you very much for your consideration of this matter.

Yours faithfully,

Jane Wyn.
(Headteacher)